# Gweithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd. Mae hyn yn cynnwys paratoi unigolion i symud, eu cefnogi i ymgartrefu, ac yna gweithio gyda nhw i adolygu effaith eu hamgylchedd newydd ar eu llesiant.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi eu dewisiadau a’u hanghenion mewn perthynas â symud i amgylcheddau byw newydd
2. cefnogi ac annog unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth am amgylcheddau byw newydd
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gynllunio symud i amgylcheddau byw newydd
4. annog unigolion ac eraill i nodi heriau wrth symud i amgylcheddau byw newydd, a mynd i'r afael â'r rhain
5. cefnogi unigolion i nodi cryfderau a’r adnoddau sydd ar gael i’w helpu i symud i amgylcheddau byw newydd
6. cefnogi unigolion ac eraill i ymweld ag amgylcheddau byw newydd a gofyn cwestiynau
7. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer amgylcheddau byw newydd
8. hybu ac annog annibyniaeth unigolion i ymgartrefu mewn amgylcheddau newydd
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i roi gwybod sut mae’r amgylchedd byw newydd wedi cwrdd â’u dewisiadau a'u hanghenion, nodi unrhyw newidiadau a mynd i’r afael â nhw
10. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i symud i amgylchedd byw newydd
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau i weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pam mae unigolion yn symud i amgylcheddau byw newydd
2. y mathau o amgylcheddau byw newydd y gall unigolion symud iddynt a sut y ceir gafael arnynt
3. egwyddorion pontio a newid a sut mae cefnogi unigolion â hyn
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd
5. y mathau o adnoddau y gallai fod eu hangen ar unigolion ar gyfer amgylcheddau byw newydd
6. ffyrdd o gefnogi unigolion i ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i symud i amgylchedd byw newydd
8. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth symud i amgylchedd byw newydd
9. sut mae pŵer a dylanwad yn gallu cael eu defnyddio a'u camddefnyddio wrth gefnogi unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd ac ymgartrefu yno
10. rôl perthnasoedd a rhwydwaith cefnogi o ran llesiant unigolion
11. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth sydd ei angen i symud i amgylcheddau byw newydd
12. dylanwad diwylliant a chefndir ar y cymorth sydd ei angen i symud i amgylcheddau byw newydd
13. sut mae cael gafael ar wybodaeth am amgylcheddau byw newydd, a sut mae adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno
14. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gael gafael ar wybodaeth, symud ac ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd
15. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd
16. damcaniaethau sy'n berthnasol i weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i symud i

amgylcheddau byw newydd

20. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd, a sut i fynd i'r afael â hyn

21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio ag unigolion i symud i amgylcheddau byw newydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD322 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Amgylcheddau byw, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |